CYNGOR TREF LLANGEFNI

COFNODION Cyfarfod Llawn Cyngor Tref Llangefni, **NOS LUN 9fed o DACHWEDD 2020 am 6.30y.h.,** trwy gyfrwng TEAMS.

PRESENNOL : Cyng. Margaret Thomas - Cadeirydd
Cyng. Ieuan G. Davies
Cyng. Gwenan Ll. Evans
Cyng. Arwel Môn Hughes
Cyng. Victor Hughes
Cyng. Terry Jones
Cyng. Christine Roberts
Cyng. J. Egryn Lewis
Cyng. J. Huw Owen
Cyng. Richard Parry.

HEFYD YN BRESENNOL : Cynghorydd Sir, Dylan Rees
Mr. Rhys Parry - Clerc
Ms. Linda Powell - Cymhorthydd Clerigol.

Cadeirydd yn croesawu ac yn diolch i'r Aelodau am eu presenoldeb yn y Cyfarfod trwy gyfrwng TEAMS, ac yn cyfeirio at y sefyllfa bryderus iawn gyda COVID-19 yn genedlaethol.

20/021 **YMDDIHEURIADAU :** Cyng. Non Wyn Parry – Dirprwy Faer
Cyng. Jamie Jones - Cyng. John Lee
Heddlu Gogledd Cymru.

20/022 **DATGANIAD O DDIDDORDEB :** Dim.

20/023 **SEDDI GWAG**
Cadeirydd yn adrodd, fod y Clerc yn disgwyl eglurhad gan Adran Etholiad, Cyngor Sir Ynys Môn, yn ymwneud ac Etholiadau/Hysbysebu Seddi Gwag, yn ystod Pandemic COVID-19. Cadeirydd yn rhagweld na fydd y Cyngor Tref yn hysbysebu Seddi Gwag tan y Flwyddyn Newydd. Clerc i adrodd ymhellach yn dilyn cadarnhad gan y Cyngor Sir. **Derbyn.**

20/024 **HEDDLU GOGLEDD CYMRU :** Dim Cynrychiolwyr.

20/025 **I DDERBYN CYWIRDEB COFNODION CYFARFOD LLAWN 12.10.2020**
Cadeirydd yn adrodd fod yr Aelodau wedi cael cyfle o flaen llaw i edrych trwy'r Cofnodion uchod.
Cyng. Christine Roberts yn Cynnig a Cyng. Victor Hughes yn Eilio i dderbyn y Cofnodion fel rhai cywir. **PENDERFYNWYD** derbyn y Cofnodion.

20/026 **I YSTYRIED MATERION YN CODI O GOFNODION 12.10.2020**
Cadeirydd yn datgan, os oes unrhyw gwestiynau yn codi o'r Cofnodion uchod, i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa, i arbed amser yn ystod y Cyfarfod drwy gyfrwng TEAMS.
Clerc yn cadarnhau fod dim ymholiadau/cwestiynau wedi eu derbyn yn y Swyddfa o flaen y Cyfarfod. **Derbyn.**

20/027 **I DDERBYN UNRHYW BENDERFYNIADAU AELODAU'R IS-BWYLLGOR CYNLLUNIO AR YMGYNGHORIADAU CYNLLUNIO – HYDREF 2020**

1 Cyng. Ieuan Davies yn Cynnig a Cyng. Richard Parry yn Eilio i dderbyn y Penderfyniadau uchod. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

PARHAD 20/027

2 **Safle Parc y Coed - E-bost 27.05.2020 - Cyngor Sir Ynys Môn**

Cyng. Victor Hughes yn tynnu sylw'r Aelodau at gynnwys yr e-bost uchod sydd yn cadarnhau fod Cytundeb 106 wedi ei arwyddo yn dweud fod Datblygwr yr Ystâd uchod i wneud taliadau i'r Adran Addysg mewn 5 rhan.
Aelodau yn gofyn i'r Clerc atgoffa'r Cyngor Sir o amodau'r Cytundeb 106, a holi ymhellach ac ydyw'r taliadau wedi eu derbyn erbyn hyn. Cadeirydd yn diolch i Cyng. Victor Hughes am godi'r mater yma ac i'r Cyngor Tref fod yn wyliadwrus mewn materion o'r fath. Clerc i adrodd yn ôl i'r Cyfarfod Llawn nesaf.

20/028 **I DDERBYN UNRHYW GYFATHREBION Y MAER**

Cadeirydd yn datgan fod y misoedd diwethaf wedi bod yn gyfnod distaw iawn, ac yn adrodd yn ôl ar y canlynol :

1 **Agoriad Swyddogol Archfarchnad Newydd Lidl – 22.10.2020 -** Cadeirydd wedi derbyn Gwahoddiad i agor Archfarchnad Newydd Lidl am 7.30 y. bore, 22ain o Hydref 2020. Cymhorthydd Clerigol wedi mynychu gyda'r Cadeirydd a Cyng. Dylan Rees, yn bresennol fel Cynghorydd Sir. Cadeirydd yn adrodd fod Rheolwr a Staff Lidi yn groesawus iawn, ac wedi arwain y Dirprwyo o gwmpas y safle ac yn cadarnhau fod y Storfa gyda phroses ailgylchu mewn lle.

2 **Adborth Sul y Cofio 08.11.2020 -** Cadeirydd yn adrodd fod Grŵp bach o Veterans wedi ymgynnull o gwmpas y Gofeb gyda Pharch. S. Leyland yn arwain gyda Gweddi. Bu'r Cadeirydd i nodi diolch diffuant i Mr. Jim Stewart am ei gymorth tuag at trefnu'r Achlysur, ac i Ms. Llinos Jones a Mrs Elizabeth Lloyd Williams am eu gwaith llaw ardderchog o wneud Papiau i addurno ffenestri Swyddfa'r Cyngor Tref ac o gwmpas y Gofeb. Cadeirydd yn ddiolchgar iawn i bawb am eu cefnogaeth. Gallwch wylio Fideo fŷr ar Safle We'r Cyngor Tref.

3 **Noson Troi'r Goleuadau Nadolig Ymlaen -** Cadeirydd yn cadarnhau bydd Goleuadau Nadolig y Dref yn cael eu rhoi ymlaen Nos Wener, 4ydd o Ragfyr 2020 am 6.00y.h. Oherwydd rhesymau iechyd a diogelach, yn dilyn Pandemic COVID-19, fydd dim adloniant yn mynd ymlaen o gwmpas Neuadd y Dref eleni, fel yn y gorffennol.
Derbyn.

20/029 **MATERION YN CODI GAN AELODAU :** Dim.

20/030 **ADRODDIAD Y CLERC**

1 **Ystafell 109 Neuadd y Sir-Cwmni Chief Properties Ltd., -** Clerc yn adrodd ei fod wedi cyfathrebu gyda'r Cyfreithiwr ynglŷn â chynnig y swm o £3,000.00 i'r Cwmni uchod i setlo'r bil. Dim ymateb wedi ei dderbyn hyd yn hyn, Clerc yn gobeithio adrodd yn ôl i'r Aelodau gydag ymateb pendant erbyn y Cyfarfod Llawn nesaf. **Derbyn.**

2 **BIPBC – Hen Safle'r Orsedd ger Siop Home Bargains –** Clerc yn adrodd ei fod wedi cysylltu gyda Rheolwr Ystadau, Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr, i ddilyn i fynnu derbyn y Ddogfen "Heads of Terms" ganddo. Swyddog yn adrodd, o dan amgylchiadau COVID-19, fod dim blaenoriaeth wedi ei roi i'r mater yma. Clerc yn datgan bydd yn parhau i gysylltu gyda'r Rheolwr Ystadau i geisio cael penderfyniad pendant er mwyn symud ymlaen i drosglwyddo'r tir. **Derbyn.**

3 **Safle Cae Criced –** Clerc yn adrodd bod Cyfreithiwr y Cyngor Tref dal i ddisgwyl i Gyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr gwblhau'r gwaith papur i drosglwyddo'r safle i'r Cyngor

PARHAD 20/030

Tref. Cyng. Victor Hughes yn datgan pryder fod dwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r partïon gytuno i drosglwyddo'r safle a bod wir angen erbyn hyn dod a'r mater i ben er mwyn diogelu dyfodol y Cae Criced.

Cyng. Richard Parry yn cynnig cysylltu gyda Chyfreithiwr yr Ymddiriedolwyr i geisio symud pethau ymlaen fel bod y Cae Criced yn dod i feddiant y Cyngor Tref i'w amddiffyn fel safle gwyrdd i'r dyfodol.
PENDERFYNWYD derbyn Cynnig Cyng. Richard Parry ac i gynnwys Eitem yn fisol ar y Rhaglen i ddilyn i fynnu ar unrhyw gynnydd wedi'i wneud ynglŷn â'r trosglwyddiad.
Cyng. Ieuan Davies yn ychwanegu fod trefniadau mewn lle ar gyfer Gemau'r Ynysoedd ar Ynys Môn yn 2025 lle bydd angen mannau Hyfforddi ar gyfer y chwaraeon.

20/031 **ADRODDIAD PWYLLGORAU ALLANOL** : Dim.

20/032 **CYLLID**

1 **I Dderbyn Mantolen Ariannol Hydref 2020** - Cadeirydd yn adrodd, os oedd unrhyw gwestiynau yn codi o'r Fantolen Ariannol, gofynnwyd i'r Aelodau gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod, i arbed amser yn ystod cysylltiad TEAMS. Clerc yn cadarnhau fod dim un o'r Aelodau wedi holi'r Swyddfa ynglŷn â Mantolen Ariannol Hydref 2020.
Cyng. Ieuan G. Davies yn Cynnig a Cyng. Terry Jones yn Eilio i dderbyn y Fantolen Ariannol. **PENDERFYNWYD** derbyn yr uchod.

2 **Diweddariad ar Sefyllfa Archwiliad Allanol BDO -** Clerc yn cadarnhau, yn dilyn Archwiliad Mewnol Cyngor Gwynedd, fod y Ffurflen Flwyddyn a Ddaeth i Ben ar 31 Mawrth 2020 yn barod i'w hanfon ymlaen i'r BDO. **Derbyn.**

20/033 **ADRODDIAD MISOL CYNGOR SIR YNYS MÔN**

Cyng. Dylan Rees yn ymddiheuro ei fod ddim yn bresennol yng Nghyfarfod Llawn mis Hydref, oherwydd trafferthion gyda'r cysylltiad TEAMS.
Cyng. Dylan Rees yn adrodd fod Swyddogion Cyngor Sir Ynys Môn wedi bod yn brysur iawn yn ystod y misoedd diwethaf yn ymateb i bryderon COVID-19.
Cyng. Rees yn adrodd ar y canlynol :

- Ymgynghoriad Cwrs Golff - Ddim wedi llwyddo i gwblhau'r Ymgynghoriad oherwydd toriad COVID-19 a'r broses yn ail-gychwyn o'r dechrau - cyfle i'r cyhoedd ymateb;
- Sesiwn Briffio Cynllunio Lle - Cyngor Sir Ynys Môn, yn datblygu ar draws yr Ynys. Cynghorydd Tref, Jamie Jones yn Gydlynydd Gwirfoddolwyr trwy Medrwn Môn;
- Prosiect Canolfan Glanhwfa yn symud ymlaen gyda chynlluniau'r tri llawr nesaf mewn lle. Cam nesaf ydyw rhoi cais i mewn am Gyllid Lottery/Llywodraeth Cymru; Cadeirydd yn diolch i Cyng. Dylan Rees am y mewnbwn uchod.

Cadeirydd yn tynnu sylw Cyng. Rees, fel Cynghorydd Sir, at gyflwr y palmentydd yn stryd Llangefni, yn enwedig tu allan i'r Swyddfa Bost ac Ardal Llawr y Dref. Cadeirydd yn adrodd fod yn hawdd i aelodau'r cyhoedd ddisgyn neu lithro oherwydd bod tyfiant o algâu gwyrdd ar y palmentydd. Mae hyn hefyd yn fater iechyd a diogelwch i gerddwyr. Cyng. Rees yn ymateb, gan fod Cynghorwyr, yn ystod cyfnod Pandemic COVID-19, ddim yn cael ymweld â Swyddfeydd y Cyngor Sir, gofynnir i'r Clerc anfon cofnod o'r uchod i'r Adran Priffyrdd a chopïo Cyng. Rees i mewn i'r ohebiaeth, er mwyn dilyn y cwyn i fynnu. **Derbyn**

20/034 **GOHEBIAETH A MATERION NEWYDD**

1 **Cyfraniadau - Llythyr o ddiolch gan Stiwdio Môn FM** - Derbyn.

2 **Cyfoeth Naturiol Cymru – 15.10.2020 – Cynllun Llifogydd Cymunedol Llangefni –** Dogfen yn Atodol - er gwybodaeth i'r Aelodau - Derbyn.

3 **Dyfodol Cwrs Golff Llangefni - E-bost 12.10.2020 - Cyngor Sir Ynys Môn -** Cyng. Terry Jones yn datgan siom fod dwy flynedd wedi mynd heibio ers i'r Cyngor Sir gynnal Asesiad o'r effaith y gallai'r bwriad i gael gwared â'r Cwrs Golff ei chael a bod y broses Ymgynghori yn ail-redeg hyd at ddiwedd Mis Tachwedd. Dim trafodaeth.

4 **Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd - Gwynedd a Môn - Hydref 2020 -** Gohebiaeth yn Atodol – Dim Trafodaeth.

5 **Llythyr Virginia Crosbie AS – 07.10.2020 –** Clerc yn gofyn am fewnbwn yr Aelodau yn dilyn derbyn llythyr gan yr Aelod Seneddol yn datgan ei diddordeb i ymuno gydag un o'm Cyfarfodydd i gael cyfle i gyflwyno cynlluniau i gefnogi'r Gymuned. Adweithiau cymysg ymhlith yr Aelodau i'r cynnig yma, yn dilyn trafodaeth, y cytundeb cyffredinol ydyw i wahodd Virginia Crosbie i gyfarfod wyneb yn wyneb gyda'r Aelodau pan ddaw Cyfnod clo i ben ac i'r AS darparu gwasanaeth cyfieithu ei hun ar gyfer y Cyfarfod.

6 **Safle Maes Chwarae Nant y Pandy – Cais am "Butterfly Starter Pack" –** Clerc yn arwain yr Aelodau trwy ohebiaeth wedi ei dderbyn gan Gynrychiolydd Parc Ffrindiau Pandy yn gofyn am ganiatâd y Cyngor Tref i sefydlu Gardd Glöyn Byw ar y safle uchod. Clerc yn adrodd ymhellach fod y Grŵp wedi bod yn cyfathrebu gyda Chydlynydd Prosiect Cadwch Cymru'n Daclus ac wedi gwneud cais i ddiogelu grant tuag at y Prosiect. Yn dilyn trafodaeth :

PENDERFYNWYD gofyn i'r Clerc wneud mwy o ymholiadau gyda'r Ymgeisydd ac Cydlynydd y Prosiect, o flaen y Cyfarfod Llawn nesaf, i gytuno ar leoliad i'r Ardd Glöyn Byw ac amserlen i wneud y gwaith. Clerc i gyflwyno diweddariad i'r Aelodau yn y Cyfarfod Llawn nesaf. **Derbyn.**

20/035 **GOHEBIAETH : ER GWYBODAETH – Wedi eu hanfon trwy E-bost**

1 **Un Llais Cymru - Derbyn**

Cadeirydd yn datgan fod Cyfarfod Pwyllgor Ardal Ynys Mon, Nos Iau 12fed o Dachwedd 2020 am 7.00y.h. trwy drefniant o bell yn defnyddio meddalwedd STARLEAF.

2 **Materion Eraill - Derbyn.**

20/036 **I YSTYRIED UNRHYW FATER BRYS GAN Y CADEIRYDD -** Dim.

Cadeirydd yn atgoffa'r Aelodau i gysylltu gyda'r Swyddfa o flaen y Cyfarfod Llawn os fydd unrhyw faterion yn codi o'r Cofnodion neu i drafod unrhyw faterion parhaus.

20/037 **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF :** Nos Lun 14eg o Ragfyr 2020 trwy gysylltiad TEAMS.

Diwedd y Cyfarfod 7.25 y.h.

CYNG. MARGARET THOMAS
CADEIRYDD